# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Y Pierhead, Pierhead Street, CF99 1NA**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Medi 2016

Amser: 12.30 - 17.00

# Anffurfiol

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Syr Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cymru, a'i ddau Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Owen Evans (y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus) a James Price, (Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol).

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff allweddol o Swyddfa Archwilio Cymru.

1.4 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Trafod busnes cynnar: Staff Comisiwn y Cynulliad

2.1 Rhoddodd y Tîm Clercio gyflwyniad ar ffyrdd y Pwyllgor o weithio.

## 3 Trafod busnes cynnar: Swyddfa Archwilio Cymru/ Archwilydd Cyffredinol Cymru

3.1 Cafwyd cyflwyniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4 Trafod busnes cynnar: Cynnal Ymchwiliadau Pwyllgor

4.1 Rhoddodd y Tîm Clercio gyflwyniad ar y modd y mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliadau. Cafodd y sesiwn ei hwyluso gan Kate Faragher o Bespokeskills.

## 5 Trafod busnes cynnar: Y Gwasanaeth Ymchwil

5.1 Rhoddodd Martin Jennings o Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad gyflwyniad ar ddull y Pwyllgor blaenorol o ymdrin â'r gwaith craffu ar gyfrifon blynyddol.

## 6 Trafod busnes cynnar: Casgliad

6.1 Trafododd yr Aelodau yr amrywiol gyflwyniadau a gafwyd.